Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Dyfarniadau ar Dudalen

Bydd y dyfarniad cyllid mwyaf addas ar gyfer eich prosiect yn dibynnu ar ba gam rydych chi wedi'i gyrraedd o ran arloesi. Gyda chymaint o opsiynau ar gael, gall llywio'r dirwedd gyllido fod yn ormod. Er mwyn gwneud hyn yn haws, rydym wedi llunio canllaw clir, hawdd ei ddilyn sy'n amlinellu'r dyfarniadau cyllid mwyaf cyffredin, ystodau eu Lefelau Parodrwydd Technoleg (TRL) nodweddiadol, a'u prif amcanion.

Er nad yw'r canllaw hwn yn gynhwysfawr, a gall Lefelau Parodrwydd Technoleg fod yn hyblyg, mae wedi'i gynllunio i gynnig man cychwyn a'ch helpu i nodi'r cyfleoedd sydd fwyaf perthnasol

Math o Ddyfarniad	Ystod TRL Nodweddiadol	Pwrpas / Defnydd
Cyllid Sbarduno	TRL 1–2	Cyllid profi cysyniad ar raddfa fach i brofi syniadau, modelau neu dechnolegau newydd
Dyfarniadau Springboard	TRL 2–4	Helpu ymchwilwyr neu ddatblygiadau arloesol cyfnod cynnar i ennill momentwm
Dyfarniadau Datblygu Gyrfa / Cymrodoriaethau	TRL 2–5	Cefnogi ymchwilwyr i ddatblygu sgiliau, arbenigedd ac annibyniaeth, i ddatblygu eu gyrfaoedd
Grantiau Peilot / Cyllid Dichonoldeb	TRL 3–4	Cymorth cyfnod cynnar ar gyfer profi ymarferoldeb, dulliau neu effaith bosibl prosiect, gan gynhyrchu data rhagarweiniol
Cystadlaethau / Gwobrau'r Her	TRL 3–6	Datrys problemau iechyd neu ofal diffiniedig yn gystadleuol drwy SBRI/Contractau ar gyfer y broses arloesi
Grantiau dan arweiniad ymchwilwyr	TRL 3–6	Ymchwil neu dreialon a yrrir gan ymchwilwyr
Grantiau heb eu Comisiynu	TRL 2–6	Mae ymgeiswyr yn cynnig eu syniadau eu hunain neu feysydd ar gyfer datblygu ymchwil/gwasanaethau
Galwadau wedi'u Comisiynu	TRL 4–7	Cyllid lle mae'r cwmpas a'r pwnc ymchwil/gwasanaeth yn cael ei bennu gan y corff cyllido
Grantiau Gwerthuso	TRL 5–7	Effeithiolrwydd, canlyniadau ac effaith yr astudiaeth
Dyfarniadau Partneriaeth Strategol	TRL 5–9	Cyflawni ar y cyd â nifer o sectorau neu ranbarthau
Grantiau Entrepreneuriaeth / Masnacheiddio	TRL 6–9	Diogelu eiddo deallusol, profi'r farchnad, cwmnïau deillio
Cyllid Mabwysiadu a Gweithredu	TRL 7–8	Darparu offer / gwasanaethau / cynhyrchion profedig yn y byd go iawn neu eu cyflwyno yn y GIG
Dyfarniadau Arloesi Gwasanaeth	TRL 5–8	Profi neu weithredu modelau cyflwyno gofal newydd
Dyfarniadau Cynaliadwyedd / Ehangu	TRL 8–9	Cefnogi ehangu a chynnal a chadw ymyriadau profedig yn yr hirdymor
Grantiau Cyfalaf / Cyfarpar	Pob TLR	Prynu offer ymchwil neu gyfarpar clinigol
Cyllid Seilwaith	Pob TLR	Cyllido cyfleusterau arbenigol / gweithluoedd cyflawni ymchwil / gwasanaethau cymorth
Hyfforddi a Meithrin Gallu	Annibynnol ar TLR	Uwchsgilio staff, gwella parodrwydd y system
Dyfarniadau Teithio / Symudedd	Annibynnol ar TLR	Cefnogi rhwydweithio, ymweliadau neu gydweithio rhyngwladol
Grantiau Lledaenu / Cynadledda	Annibynnol ar TLR	Rhannu canfyddiadau neu gynyddu dylanwad a chyrhaeddiad